CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun y 10fed o Fawrth 2025 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.**

Presennol; Cyng. Elwyn Evans, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Eleri Puw, Robert D Jones, Cyng Beth Lawton (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Elwyn Evans. Roedd ymddiheuriad gan Cyng Dylan Jarman a Miriam Webb.

Ar ddechrau'r cyfarfod, croesawyd Elin William o Gyngor Gwynedd i roi'r diweddaraf gyda'r prosiect LleChi/LleNi. Soniodd am y £33 mil sydd wedi ei glustnodi I Abergynolwyn, a hefyd y rhaglen grantiau arwahan i hyn o £10 mil, yn grant refeniw neu gyfalaf. Byddai'n trafod yr holiaduron oedd i law gyda'i chydweithwyr, ond byddai mwy eto o ymgynghori. Roedd yn bosib y byddai yna gyfarfod cyhoeddus. Soniwyd am yr angen i ail-gyhoeddi llyfrau o'r ardal, sef llyfr Caradog Roberts ac Elwyn Roberts, lle roedd penod benodol ar y chwareli. Fodd bynnag nid oedd hyn yn cael ei ganiatau o dan y rhaglen. Er hyn, dywedwyd y byddai modd ceisio eu rhoi ar wefan y Cyngor, ac addawodd Elin gael gair gyda Hannah Gwenllian, oedd yn gofalu am ein gwefan, i edrych ar y posibiliadau.
Cadarnhaodd Y Cadeirydd Elwyn Evans iddo gael gwahoddiad i fod yn rhan o Fwrdd Treftadaeth Cymru , oedd yn cael ei Gadeirio gan yr Arglwydd Dafydd Wigley. Roedd y Bwrdd yma yn sicrhau fod y gwariant yn cydfynd gyda disgwyliadau UNESCO. Diolchwyd i Elin am ddod atom, a byddai'r cyswllt yn parhau.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed o Chwefror** ar gynnig Cyng. Gwynedd Roberts a'I eilio gan Cyng Emrys Thompson.
4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/llwybrau**.

Adroddwyd ymateb Gwyn Evans o Gyngor Gwynedd i'r ymholiadau am lwybrau yn y cyfarfod diwethaf. Byddai rhaid trafod eto yn y cyfarfod nesaf, gyda map o'n blaen. Hefyd byddai rhaid adolygu y sefyllfa yn Stryd Llanegryn.

b) **Coeden ym mynwent Llanfihangel y Pennant –** nodwyd yr ohebiaeth gyda Rhydian Roberts o'r Parc Cenedlaethol, a oedd wedi ei ddanfon i bawb. Roedd rhaid atgoffa i weld beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf.

c) **Archwiliad y cae chwarae gan ROSPA** – roedd amcangyfrif GL Jones Playgrounds wedi ei ddanfon allan i bawb ymlaenllaw. Roedd am gyfanswm o £6944.40 yn cynnwys TAW. Ar gynnig Cyng Emrys Thompson a'i eilio gan Cyng Eleri Puw, a gyda chefnogaeth unfrydol, penderfynwyd mynd ymlaen efo hyn. Roedd angen cadarnhad fod ffram y siglen yn gynwysedig,ac a oedd modd cael guard dros gwaelod y ffram, gan fod y strimmer yn ei gyffwrdd bob

tro. Hefyd, er diddordeb, roedd angen gwybod beth fyddai cost ‘wetpour’ yn lle y ‘grassmat’.Byddai’r Clerc yn cysylltu ac adrodd yn ol ar e-bost i bawb.

d) **Gwaith ym mynwent Y Fedw Abergynolwyn**.

Cadarnhwyd fod y gwaith wedi ei gwbwlhau, a bod y cyfan yn waith da iawn.

Roedd yr anfoneb i law – gweler materion cyllid isod.

e) **Asedau y Cyngor –** byddai rhaid trafod yn y cyfarfod nesaf.

f) **Llwybr yn y cae chwarae i’r anabl –** roedd e-bost diweddaraf Cyng Steve Lewis wedi ei ddosbarthu. Ystyriwyd amcangyfrif Tim Parsons yn ofalus, ac ar gynnig Cyng Robert D Jones a’i eilio gan Cyng Emrys Thompson, a chefnogaeth unfrydol, penderfynwyd ar y pris o £1103.64.

**g) Ansawdd dwr/ carthffosiaeth – Abergynolwyn –** darllenwyd ymateb Liz Saville Roberts AS. Roedd y cwynion yn parhau o arogl/ blas drwg, a chynigiwyd cyfeiriadau penodol. Hefyd, roedd angen gwybod paham fod faniau/tankers yn yr ardal o hyd, a beth oedd y broblem.

**5. Materion Cynllunio**

Cadarnhawyd fod y Canllawiau i Gynghorau Cymuned gan Adran Gynllunio y Parc Cenedlaethol wedi ei ddosbarthu i bawb. Wrth ymateb i geisiadau cynllunio, pwysleisiwyd fod rhaid ymateb unai cefnogol (gyda rhesymau) neu gwrthod (gyda rhesymau)

6. **Materion Cyllid.**

a) **Cyfrifon 2023-24** - nododd y Clerc fod y cyfan bellach wedi ei ddychwelyd gan yr Archwilydd Allanol, a bod yr hysbyseb arferol yn cael ei roi ar yr hysbysfwrdd yn y Pentref ac ar y wefan.

b) Anfonebau;

Ar gynnig Cyng Robert Jones a’i eilio gan Cyng Eleri Puw, cytunwyd i dalu y canlynol;

- **Cydnabyddiaeth chwarter olaf y Clerc, sef £400.01 a HMRC £100, ynghyd a chostau am y flwyddyn fel y cytunwyd o £500.**
- **Yswiriant y Cyngor 2025-26 - £346.97**. Roedd yr holl ohebiaeth a’r manylion wedi ei ddanfon i’r Cynghorwyr ymlaenllaw. (y taliad i fynd drwy’r cyfri yn Ebrill 2025)
- **E W Owen a’i Chwmni** – PAYE cyflog y Clerc £228.
- **Jones & Jones, Contractwyr** – gwaith ym mynwent y Fedw - £1740
- **Aelodaeth Un Llais Cymru** - £100.

Nodwyd llythyr caredig o ddiolch gan Margaid Gwenllian am y cyfraniad i’r Urdd.

c) **Ceisiadau am arian** - cytunwyd ar gynnig Cyng Emrys Thompson a’i eilio gan Cyng Gwynedd Roberts fel a ganlyn;

- **Ambiwlans Awyr Cymru** – adroddwyd nad oedd ymateb i'r Adolygiad Barnwrol. Penderfynwyd gadael y mater tan tro nesaf.
- **SSFA** – Elusen y Lluoedd Arfog – penderfynnu peidio cyfrannu
- **Apel GISDA 40** – pendefynnu peidio cyfrannu
- **Marie Curie** – penderfynnu peidio cyfrannu am y tro (addawodd Cyng Beth Lawton i holi ymhellach ynglyn a'r elusen yn lleol)
- **Clybiau Ffermwyr Ieuainc Meirionnydd** - £100 (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Robert D Jones pan drafodwyd hyn)

7. **Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

   Derbyniwyd adroddiad llawn gan Cyng Beth Lawton, gan nodi y canlynol;

   - Sefyllfa cau y ffordd ger Dolgoch, a chais am wneud gwaith tra oedd hyn ymlaen
   - Cyfarfod o'r Bwrdd Iechyd Dydd Gwener 14eg Mawrth ynglyn a Ysbyty Tywyn.
   - Digwyddiad yn Rheolffordd Talyllyn ar ddiwrnod rhyngwladol y merched
   - Eu gwaith gyda Byw'n Iach a chanolfan hamdden Tywyn.

Diolchwyd i'r Cyng Beth Lawton am ei holl waith yn yr ardal

8. **Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

   Adroddwyd am y Pwyllgor Polisi diweddaraf, a gwaith Dr Catrin Jones, Swyddog Polisi.

   Hefyd cyfeiriwyd at Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru, y wefan newydd a'r fersiwn gymraeg, y cynnig am wrthwynebu treth etifeddiaeth ar ffermydd ac y byddai rhaid i gynnig gael ei roi gerbron y Pwyllgor Cenedlaethol, a phenodiad Kath Brown, cyn Glerc Cyngor Tref Caernarfon i olynu Mel ab Owain.

**9.Gohebiaeth.**

a) **Materion mynwent Llanfihangel y Pennant** - nodwyd fod gwasanaeth i'r diweddar Iorwerth Evans Dydd Gwener 14eg Mawrth. Nodwyd siom nad oedd unrhyw gysyllt gan Ben Thomas, Trefnwr angladdau gyda'r Clerc am hyn. Roedd angen cysylltu ag ef.

b) **Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru** – nid oedd rhain i law eto. Byddai'r Clerc yn diweddaru y Cynllun hyfforddiant.

c) Nodwyd **Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Cynghorwyr** a oedd wedi ei ddanfon i'r Cynghorwyr.

d) Nodwyd **Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru** a oedd wedi ei ddanfon i'r Cynghorwyr.

e) Cadarnhwyd benodiad **Archwilydd Mewnol** ar gyfer cyfrifon 2024-25, sef Uned Archwilio mewnol Cyngor Gwynedd. Roedd llythyr wedi ei baratoi gan y Clerc.

f) Nodwyd lythyr gan **Ras Chwid Flynyddol Abergynolwyn**, yn gofyn caniatad i ddefnyddio'r Cae Chwarae. Cadarnhwyd nad oedd problem, ond roedd angen sicrhau nad oedd cwn yn cael eu caniatau ar y Cae Chwarae.

**10. Unrhyw fater arall**

Nid oedd faterion eraill.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF;   Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN  NOS LUN 14eg Ebrill 2025 , 7.00y.h.**

**..................................................................................................................................**

Minutes of a meeting of the Council held on Monday evening the 10th of March 2025 at 7.00pm in the Ganolfan, Abergynolwyn.

Present; Cllr. Elwyn Evans, Steve Lewis, Emrys Thompson, Gwynedd Roberts, Eleri Puw, Robert D Jones, Cllr Beth Lawton (Gwynedd Council) and Huw T Jones (Clerk)

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Elwyn Evans. There was an apology from Cllr Dylan Jarman and Miriam Webb.

At the beginning of the meeting, Elin William from Gwynedd Council was welcomed to give an update on the LleChi/LleNi project. She mentioned the £33 thousand that has been earmarked for Abergynolwyn, and also the separate grant program for this of £10 thousand, as a revenue or capital grant. She would discuss the questionnaires at hand with her colleagues, but there would still be more consultation. It was possible that there would be a public meeting.  It was mentioned about the need to republish books from the area, namely the book by Caradog Roberts and Elwyn Roberts, where there was a specific chapter on the quarries. However this was not allowed under the programme. Despite this, it was said that it would be possible to try to put them on the Council's website, and Elin promised to have a word with Hannah Gwenllian, who looked after our website, to look at the possibilities.

Chairman Elwyn Evans confirmed that he had been invited to be part of the Welsh Heritage Board, which was chaired by Lord Dafydd Wigley. This Board ensured that the expenditure was in line with UNESCO's expectations.

Elin was thanked for attending, and the contact would continue.

2. It was noted that there was no request to have presentations from members of the public on matter on the Agenda.

3. The minutes of the meeting held on the 10th of February were confirmed on the proposal of Cllr. Gwynedd Roberts and seconded by Cllr Emrys Thompson.

4. Matters arise

a) Highways/pathways issues.

The response of Gwyn Evans from Gwynedd Council to the inquiries about routes was reported at the last meeting. It would have to be discussed again at the next meeting, with a map in front of us. Also the situation in Llanegryn Street would have to be reviewed.

b) A tree in Llanfihangel y Pennant cemetery - noted the correspondence with Rhydian Roberts from the National Park, which had been delivered to everyone. He had to be reminded to see what the latest situation was.

c) Inspection of the playground by ROSPA - GL Jones Playgrounds estimate had been sent out to everyone in advance. It was for a total of £6944.40 including VAT. On the proposal of Cllr Emrys Thompson and seconded by Cllr Eleri Puw, and with unanimous support, it was decided to go ahead with this. It was necessary to confirm that the frame of the swing was included, and whether it was possible to have a guard over the bottom of the frame, as the strimmer touches it every time. Also, for interest, it was necessary to know what the cost of 'wetpour' would be instead of the 'grassmat'. The Clerk would contact and report back by email to everyone.

d) Work at Y Bedw Abergynolwyn cemetery.

It was confirmed that the work had been completed, and that it was all very good work.

The invoice was received - see finance matters below.

e) The Council's assets - it would have to be discussed at the next meeting.

f) Path in the playground for the disabled - Cllr Steve Lewis's latest email had been distributed.

Tim Parsons' estimate was carefully considered, and on the proposal of Cllr Robert D Jones and seconded by Cllr Emrys Thompson, and unanimous support, the price of £1103.64 was decided.

g) Quality of water/sewerage - Abergynolwyn - Liz Saville Roberts MP's response was read. The complaints continued of bad smell/taste, and specific directions were offered. Also, it was necessary to know why there were still vans/tankers in the area, and what the problem was.

5. Planning Matters

It was confirmed that the Guidelines for Community Councils by the Planning Department of the National Park had been distributed to everyone. When responding to planning applications, it was emphasized that a response must be either supportive (with reasons) or rejected (with reasons)

6. Finance Matters.

a) Accounts 2023-24 - the Clerk noted that all have now been returned by the External Auditor, and that the usual advertisement is placed on the notice board in the Village and on the website.

b) Invoices;

On the proposal of Cllr Robert Jones and seconded by Cllr Eleri Puw, it was agreed to pay the following;

• The Clerk's last quarter remuneration, namely £400.01 and HMRC £100, together with costs for the year as agreed of £500.

• Council Insurance 2025-26 - £346.97. All the correspondence and details had been delivered to the Councilors in advance. (the payment to go through the account in April 2025)

• E W Owen and Company – PAYE Clerk's salary £228.

Jones & Jones, Contractors - work at the Birch cemetery - £1740

• One Voice Wales membership - £100.

A kind letter of thanks from Margaid Gwenllian for the contribution to the Urdd was noted.

c) Requests for money - Cllr Emrys Thompson's proposal was agreed and seconded by Cllr Gwynedd Roberts as follows;

• Cymru Air Ambulance - it was reported that there was no response to the Judicial Review. It was decided to leave the matter until next time.

• SSFA – Armed Forces Charity – decided not to contribute

• GISDA Appeal 40 – decide not to contribute

• Marie Curie - decided not to contribute for the time being (Cllr Beth Lawton promised to inquire further about the charity locally)

• Meirionnydd Young Farmers Clubs - £100 (a declaration of interest was received from Cllr Robert D Jones when this was discussed)

7. Councilor Beth Lawton's report (Gwynedd Council)

A full report was received by Cllr Beth Lawton, stating the following;

• The road closure situation near Dolgoch, and a request to do work while this was going on

• Meeting of the Health Board Friday 14th March regarding Tywyn Hospital.

• An event in Talyllyn Road on international women's day

• Their work with Byw'n Iach and Tywyn leisure centre.

Cllr Beth Lawton was thanked for all her work in the area

8. Report of Cllr. Elwyn Evans, representative of One Voice Wales.

Reported on the latest Policy Committee, and the work of Dr Catrin Jones, Policy Officer.

Reference was also made to the One Llais Cymru National Awards, the new website and the Welsh version, the proposal to oppose inheritance tax on farms and that a proposal would have to be put before the National Committee, and the appointment of Kath Brown, former Clerk of Caernarfon Town Council to succeed Mel ab Owain.

9. Correspondence.

a) Llanfihangel y Pennant cemetery matters - it was noted that there was a service for the late Iorwerth Evans on Friday 14th March. Disappointment was noted that there was no contact from Ben Thomas, Funeral Director with the Clerk about this. He needed to be contacted.

b) Un Llais Cymru training dates - these were not yet available. The Clerk would update the training Plan.

c) Noted the Annual Report of the Independent Panel for Wales on the Financial Remuneration of Councilors which had been delivered to the Councillors.

d) The North Wales Police and Crime Plan which had been delivered to the Councilors was noted.

e) The appointment of an Internal Auditor for the 2024-25 accounts, namely the Gwynedd Council's Internal Audit Unit, was confirmed. A letter had been prepared by the Clerk.

f) A letter from the Abergynolwyn Annual Race was noted, requesting permission to use the Playground. It was confirmed that there was no problem, but it was necessary to ensure that dogs were not allowed on the Playground.

10. Any other matter

There were no other issues.

DATE OF NEXT MEETING; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN MONDAY 14th April 2025, 7.00 p.m.